(iii) Mae'r Llyfr Gwasanaeth, *Addolwch yr Arglwydd*, yn cynnwys 'Credo'r Apostolion', yn Gymraeg ac yn Saesneg (tud. 368 a 369).

Gwnewch gopïau ar gyfer aelodau'r grŵp a threfnu bod rhywun yn ei ddarllen yn uchel i'r grŵp. Rhowch gyfle wedyn i bawb ei ddarllen ei hunan.

i) Ydy'r Credo yn crynhoi eich cred chi?

ii) Beth sy'n anodd ei ddeall ynddo?

iii) Oes yna bethau ynddo rydych chi'n cael anhawster i'w derbyn?

iv) Ceisiwch lunio fersiwn mewn iaith gyfoes fel grŵp.

(iv) Meddyliwch am y gwahanol ffyrdd mae aelodau eich eglwys yn helpu pobl anghenus yn y gymuned e.e. banciau bwyd, cludo cawl i'r digartref, bugeiliaid y stryd, gwirfoddoli i fudiadau elusennol.

Ystyriwch sut all eich eglwys agor ei drysau i rai o'r bobl sy'n cael eu helpu. Pa gyfleoedd sy'n cynnig eu hunain i'ch eglwys chi? Beth gredwch chi fyddai'r heriau? Pa broblemau allech chi weld yn codi? Beth fyddai'n rhaid addasu ym mywyd presennol yr eglwys?

Edrychwch ar adran 'Café Church' yn
www.freshexpressions.org.uk

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Beth mae Cristnogion yn ei gredu heddiw?

Blwyddyn 1, Rhan 3

Chwefror - Mawrth 2017

Sut i ddefnyddio'r deunydd

Awgrymwn eich bod yn rhannu'r drydedd ran hon o'r cynllun yn bedair sesiwn yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth 2017. Mae cwestiynau pob sesiwn ar dudalennau 2 a 3

***Sesiwn A*:** Gwylio'r bennod *Craidd y Ffydd* a thrafod y cwestiynau.

***Sesiwn B*:** Gwylio'r bennod *Credu'r Ffydd*, a thrafod y cwestiynau.

***Sesiwn C*:** Gwylio'r bennod *Cwestiynu'r Ffydd*, a thrafod y cwestiynau.

***Sesiwn CH*:** Gwylio'r bennod *Canlyniadau'r Ffydd*, a thrafod y cwestiynau.

Noder: Fe fydd y penodau unigol ar gael i'w lawr lwytho o wefan yr Undeb ar ddechrau mis Chwefror.

Ar dudalennau 3 a 4 o'r daflen hon mae nifer o bethau eraill i helpu i lenwi sesiwn, ond cyn gorffen pob sesiwn byddai'n dda i'r grŵp drafod y cwestiwn:

Beth allwn ni fel eglwys ei wneud yn dilyn y drafodaeth hon?

Cwestiynau i'w trafod

Sesiwn A: Craidd y Ffydd

1) Beth sy'n sylfaenol i'ch ffydd chi, a pham?
2) Wrth gyflwyno'r ffydd i eraill sut mae osgoi: a) ei wneud yn rhy gymhleth i'w ddeall; b) yn rhy syml i gwmpasu'r byd cymhleth rydym yn byw ynddo?
3) Ydy Duw'n datguddio ei hun mewn ffyrdd eraill ar wahân i Gristnogaeth?
4) 'Fe sy'n dal y cwbl gyda'i gilydd' (Colosiaid 1:17). Beth mae hyn yn dweud wrthych chi am Iesu Grist?

Sesiwn B: Credu'r Ffydd

1) Ydy'n hawdd crynhoi neges y Beibl i gyfres o osodiadau, a pha mor bwysig yw ceisio gwneud hynny?
2) Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ffydd bersonol a ffydd breifat?
3) Sut mae bod yn berthnasol i heddiw, ac aros yn ffyddlon i'r Beibl a thraddodiadau'r Eglwys dros y canrifoedd?
4) Gyda chymaint heddiw fel pe byddent yn ddifater neu'n amheus o unrhyw fath o awdurdod, sut mae cyflwyno'r syniad o Arglwyddiaeth Iesu dros fywyd yn ei gyfanrwydd?

Sesiwn C: Cwestiynu'r Ffydd

1) 'Er bod pethau nad wy'n eu deall, rwy'n credu bod popeth yn bosibl i Dduw.' Beth sy'n peri anhawster i chi o fewn y ffydd, a sut ydych chi'n delio â'r peth?
2) A ydych yn gallu meddwl am enghreifftiau o'r ffydd yn cael ei newid er mwyn bod yn fwy derbyniol i gymdeithas?'
3) Sut fyddech chi'n ateb yr honiad mai crefydd sydd ar fai am yr holl ladd ag anghyfiawnder yn ein byd heddiw?
4) Beth gredwch chi yw'r her fwyaf sy'n wynebu'r eglwys wrth geisio cael pobl i gymryd y ffydd Gristnogol o ddifrif?

***Sesiwn CH*: Canlyniadau'r Ffydd**

1) Sut allai technoleg fodern gyfoethogi'r profiad o fwynhau'r Beibl ac addoliad yn eich eglwys?
2) Oes gennych chi brofiad o ddilyn cwrs fel *Alpha*? Beth yw cryfderau a gwendidau cyrsiau o'r fath?
3) Ydy oedfaon eich eglwys yn rhoi digon o gyfle i bobl gyfnewid profiadau a mynegi eu ffydd?
4) Ym mha ffyrdd y mae'r eglwysi wedi elwa o 'Blwyddyn y Beibl Byw' yn eich barn chi?

Gweithgarwch Ychwanegol

(i) Sylwadau gan bobl dros yr oesoedd am y Ffydd i ysgogi trafodaeth pellach.

'Prif waith y Cristion yw gwneud cariad Duw yn real.'

'Gweddïa, a gad i Dduw bryderu.'

'Dyma fy nghred syml. Does dim angen temlau nag athroniaeth gymhleth. Y meddwl a'r galon yw'r deml; caredigrwydd yw'r athroniaeth.'

'Paid colli'r cyfle i sylwi ar brydferthwch. Oherwydd prydferthwch yw llawysgrifen Duw.'

'Ansawdd bywyd y gynulleidfa leol yw'r dehongliad gorau posibl o'r Ysgrythur.'

'Y rhodd fwyaf gellir ei rhoi i eraill yw eu caru'n ddiamod a'u derbyn.'

(ii) Darllenwch Genesis 11: 1-9 (Tŵr Babel). Pa neges/ negeseuon rydych chi'n credu mai'r awdur yn ceisio cyflwyno drwy'r stori hon?